Ces i fy ngeni – *I was born*

Themau - *Themes*

Ces i fy ngeni – *I was born*

Patrymau laith - *Language patterns*

Dyn ni'n defnyddio'r patrwm yma am rywbeth sy'n digwydd i ni
e.e ces i fy ngeni / ces i fy ngweld.

We use this pattern to talk about something that happens to us
e.g I was born / I was seen

Ces i fy **ng**eni yn Ne Affrica.	*I was born in South Africa*
Cest ti dy eni yn Johannesburg.	*You were born in Johannesburg*
Cafodd e ei anfon i Johannesburg.	*He was sent to Johannesburg*
Cawson ni ein magu yn y Rhondda.	*We were brought up in the Rhondda*
Cawson nhw eu croesawu yno.	*They were welcomed there*

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Cofiwch y rhagenwau a'u treigladau
Remember the pronouns and their mutations.

Fy + treiglad trwynol	*My + nasal mutation*
Dy + treiglad meddal	*Your + soft mutation*
Ei (g) + treiglad meddal	*His + soft mutation*
Ei (b) + treiglad llaes	*Her + aspirate mutation*
Ein + dim treiglad	*Our + dim treiglad*
Eich + dim treiglad	*Your + dim treiglad*
Eu + dim treiglad	*Their + dim treiglad*

Amseroedd eraill - *other tenses*

Dw i'n cael fy ngweld am 2- *I am being seen at 2*
Dw i wedi cael fy ngweld - *I have been seen*
Bydda i'n cael fy ngweld yfory - *I will be seen tomorrow*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain 1 / *Audio task 1*

Cysylltwch y ddwy ochr i greu brawddeg gywir.
Connect the two sides to create a correct sentence.

1	Ces i	A	ei geni yn yr Almaen.
2	Cest ti	B	eu croesawu gan y bobl leol yn Ne Affrica.
3	Cafodd tad Jen	C	dy eni yn Johannesburg.
4	Cafodd ei chwaer hi	Ch	fy ngeni yn Ne Affrica.
5	Cawson ni	D	ei anfon i Johannesburg.
6	Cawson nhw	Dd	ein magu yn y Rhondda.

Tasg sain 2 / *Audio task 2*
Atebwch y cwestiynau hyn.
Answer these questions.

Beth ddigwyddodd i Miss James cyn y cwrs?
Pwy arall oedd ar y cwrs?
Sut cawson nhw eu dychryn ?
Sut oedd Mr Thomas yn gwybod am y cwrs ?
Ydy Mr Thomas wedi cael ei ddal yn gyrru'n rhy gyflym?

Sgript Sain - *Audio Script*

Beti: Ble cest ti dy eni, Jen?

Jen: Ble ces i fy ngeni? Pam rwyt ti'n gofyn?

Beti: Wel, dim yng Nghymru, nage?

Jen: Na. Rwyt ti'n iawn! Ces i fy ngeni yn Ne Affrica, yn Johannesburg.

Beti: Sut cest ti dy eni yn Johannesburg?

Jen: Cafodd fy nhad ei anfon i weithio yno yn y pumdegau.

Beti: Beth oedd gwaith dy dad?

Jen: Peiriannydd sifil oedd fy nhad. Aeth e i Dde Affrica am ddwy flynedd ...

Beti: O! Do fe?

Jen: Do. Cafodd e ei anfon i ddinas Johannesburg ac aeth mam hefyd.

Beti: Dyna antur!

Jen: Ie. Ond roedd llawer iawn o Gymry yno'n barod! Cawson nhw eu croesawu gan y bobl leol a'r Cymry.

Beti: Pryd cyrhaeddaist ti, 'te?

Jen: Wel, ces i fy ngeni dair blynedd yn ddiweddarach! Merch fach o Jo'burg!

Beti: Am faint o amser arhosoch chi allan yno?

Jen: Cafodd fy nhad ei alw yn ôl i Gymru ar ôl dwy flynedd. Roedd gwaith yma!

Beti: Beth am dy chwaer wedyn? Ble cafodd hi ei geni?

Jen: Cafodd fy nhad ei anfon i'r Almaen wedyn a cafodd fy chwaer ei geni yno.

Beti: Pryd daethoch chi'n ôl?

Jen: Ro'n ni yn yr Almaen am ddwy flynedd.

Beti: Felly mae dy chwaer yn Almaenes a rwyt ti'n dod o Dde Affrica.

Jen: Ond Cymry dyn ni! Cawson ni ein magu yn y Rhondda!

Geirfa

geni – *(to) be born*
antur – *adventure*
pumdegau - *fifties*
peiriannydd - *engineer*
croesawu – *(to) welcome*
yn ddiweddarach – *later*
yr Almaen – *Germany*
Almaenes - *German (female)*
magu – *(to) be brought up*
Cymry – *Welsh people*

Sgript Sain 2 – *Audio Script 2*

Mr Thomas: Bore da Helen.

Miss James: Bore da Mr Thomas.

Mr Thomas: Gest ti amser da ar y cwrs?

Miss James: O, ym, do ....da iawn diolch.

Mr Thomas: Cwrs beth oedd e? Dw i ddim yn cofio.

Miss James: Ym, wel, ...cwrs cyflymder.

Mr Thomas: Cwrs cyflymder?

Miss James: Ces i fy ngwahodd ar y cwrs gan Heddlu De Cymru.

Mr Thomas: A! Twt, twt! Gest ti dy ddal yn gyrru yn rhy gyflym do fe?

Miss James: Do. Cafodd fy nghariad ei stopio ac roedd e ar y cwrs hefyd!

Mr Thomas: O diar. Anffodus iawn.

Miss James: Aethon ni ar y cwrs yn lle cael pwyntiau.

Mr Thomas: Oedd lot o bobl ar y cwrs?

Miss James: O oedd. Gwelon ni luniau o ddamweiniau ofnadwy.

Mr Thomas: Gawsoch chi eich dychryn wrth weld y lluniau?

Miss James: Do. Cawson ni i gyd ein dychryn.

Mr Thomas: Maen nhw'n erchyll, ond dyn nhw?

Miss James: Ydyn wir. Sut dych chi'n gwybod?

Mr Thomas: Mae pobl eraill wedi cael eu dal gan Heddlu De Cymru, cofia.

Miss James: Dych chi wedi bod ar y cwrs?

Mr Thomas: Cafodd dau o fy ffrindiau eu dal llynedd a cawson nhw eu gwahodd i'r un cwrs.

Miss James: Dych chi'n siŵr bod chi ddim wedi bod ar y cwrs, Mr Thomas?

Mr Thomas: Dw i ddim yn gyrru yn rhy gyflym. Wel... dw i ddim wedi cael fy nal, eto o leia!

Geirfa

gwahodd – *(to) invite*
dal - *(to) catch*
yn lle – *instead of*
dychryn – *(to) frighten*
erchyll – *horrendous*
o leia - *at least*

Atebion - *Answers*

Tasg sain 1 / *Audio task 1*

1Ch Ces i fy ngeni yn Ne Affrica.
2C Cest ti dy eni yn Johannesburg.
3D Cafodd tad Jen ei anfon i Johannesburg.
4A Cafodd ei chwaer hi ei geni yn yr Almaen.
5Dd Cawson ni ein magu yn y Rhondda.
6B Cawson nhw eu croesawu yn Ne Africa.

Tasg sain 2 / *Audio task 2*

Beth ddigwyddodd i Miss James cyn y cwrs? Cafodd hi ei dal yn gyrru'n rhy gyflym
Pwy arall oedd ar y cwrs? Roedd ei chariad hi ar y cwrs.
Sut cawson nhw eu dychryn ? Cawson nhw eu dychryn gan luniau o ddamweiniau.
Sut oedd Mr Thomas yn gwybod am y cwrs ? Cafodd dau o'i ffrindiau eu gwahodd ar y cwrs llynedd.
Ydy Mr Thomas wedi cael ei ddal yn gyrru'n rhy gyflym? Nac ydy, dyw e ddim wedi cael ei ddal, eto o leia!